

**Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer
19 o Ionawr, 2015**

Presennol: Linda Morris (Cadeirydd), Emyr Jones, John Morris, Tylwyth Roberts, W D Williams, Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Lis Puw (Clerc)

Ymddiheuriadau: Eleri Jones, Gwyn Roberts

1. Croesawyd pawb yn gynnes i'r cyfarfod ac estynnwyd croeso arbennig iawn i Tylwyth Roberts ar gael ei chyfethol fel Cynghorydd dros ward Gwaliau. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Eleri Jones a Gwyn Roberts. Cyhoeddwyd fod Eleri Jones wedi derbyn y swydd o is-Gadeirydd.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Nid oedd datganiadau o fuddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Tachwedd 10fed 2014.
5. Nid oedd materion yn codi o'r Cofnodion nad oedd eisoes ar yr Agenda.
6. Derbyniwyd Adroddiad y Cynghorydd Sir a soniodd yn benodol am y datblygiadau arfaethedig yn ymwneud ag addysg ym Mhenllyn. Mae'r Llywodraeth wedi cymeradwyo cais i sefydlu ysgol 3- 18 oed ar safle presennol Ysgol y Berwyn, a'r cais i ffederaleiddio'r tair ysgol gynradd wledig.
7. Derbyniwyd Adroddiad o Bwyllgor Ardal Un Llais Cymru gan W D Williams. Bydd y Cyfarfod cyffredinol yn cael ei gynnal yng Nghanolfan Henblas yn yr haf. Bu'r hyfforddiant ar ddatganoli gwasanaethau yn llwyddiannus.
- 8. Materion ariannol**
 - i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol bresennol.
 - ii. Ystyriwyd y Gyllideb ar gyfer 2015-16 a llefel y Praesept 2015-16, a chytunwyd i'w osod ar £4,000.
 - iii. Derbyniwyd gwybodaeth mai uchafswm gwariant o dan Adran 137 yw £7.36 am bob etholwr.
 - iv. Cytunwyd i dalu anfonebau Gostau Swyddfa'r Clerc ac am y Wefan (pan fydd y grant wedi cyrraedd).
9. **Y fynwent** : cafwyd trafodaeth lawn a chytunwyd i holi yn lleol am berson(au) a fyddai'n fodlon gwneud y gwaith o dorri a chlirio'r gwair dwywaith yn y tymor ar ei risg ei hunan am £800. Cytunodd y Clerc i ofyn, o ran gwybodaeth, am amcan bris yswiriant i unigolyn i weithio yn y fynwent.
10. **Materion lleol:** ni chodwyd unrhyw fater penodol.
11. **Partneriaeth Penllyn:** derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr a chytunwyd i arwyddo Cytundeb Gwynedd.

12. **Gohebiaeth:**

Parc Cenedlaethol Eryri:

Cadarnhawyd i'r Cynghorwyr gytuno i gymeradwyo

NP5/70/L106C – estyniad i Beudy Isaf Rhosygwaliau;

C14/1079/06/LL – paneli solar yn Tŷ Tan y Graig

Derbyniwyd gwybodaeth:

NP5/70/58E - Caniatâd wedi ei roi i osod ffenestri to ar y beudy yn Tŷ Isaf

Rhosygwaliau

Cais ôl weithredol am wifrau trydan uwchben at Bryn Bedwog wedi ei anfon at y Llywodraeth – dim gwrthwynebiad gan y Cyngor Cymuned na Pharc Cenedlaethol Eryri

Cymeradwywyd Cais NP5/70/123C i godi garej newydd yn Garth Lwyd, Rhosygwaliau

Gwynedd: derbyniwyd adroddiad PEG